

CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR BRO LLANGELER
2015

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol Nos Lun, Mai 18eg 2015 yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul am 7.30y.h

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a diolchodd i bawb am eu cydweithrediad tra yn y gadair ac i'r Clerc am ei chefnogaeth.

PRESENNOL: Cyng.- Adrian Thomas (Cadeirydd), Jamie Ayres, John Crossley, Brenda Jones, Christopher Jones, Nesta Jones, Mary Phillips, Marc Rees, Caroline Roberts, John Wigley. Clerc – Stella Jones

1. 05/15 YMDDIHEURIADAU: Cyng Delyth Evans, Dilwyn Smith, Ken Howell, Heddlu

2. 05/15 CADARNHAU COFNODION 2014:

Roedd y cofnodion wedi ei cadarnhau yng nghyfarfod 30:6:2014 Cynigydd: Cyng. M Rees
Eilydd: Cyng. D Smith

3. 05/15 ETHOL CADEIRYDD:-

Cynigwyd Cyng. Adrian Thomas gan Cyng. B Jones ac Eiliwyd gan Cyng. J Crossley. Derbyniwyd y cynnig.
Ail Etholwyd Cyng. Adrian Thomas yn unfrydol.

4. 05/15 ETHOL IS-GADEIRYDD:-

Cynigwyd y Cyng. Caroline Roberts gan Cyng. C Jones ac Eiliwyd gan Cyng. J Wigley
Ail Etholwyd Cyng. Caroline Roberts yn unfrydol.

5. 05/15 LWFANS Y CADEIRYDD:

Am y flwyddyn 2015 – 2016 cadw'r lwfans yn £500 i'w dalu ar ddechrau ei th/dymor yn y gadair.

6. 05/15 CYFLOG Y CLERC: Penderfynwyd codi'r cyflog o £400 y mis i £418.75

7. 05/15 MANTOLEN 2014 – 2015:

Derbyniwyd y fantolen wedi ei archwilio a'i cael yn gywir gan yr Archwilydd Mewnol – Mrs Ann James
Cynigydd – Cyng J Ayres Eilydd – Cyng C Jones

8. 05/15 APWYNTIO ARCHWILYDD MEWNOL am 2015-16:

Cytunwyd i ofyn i Mrs Ann James o Gapel Iwan i fod yn Archwilydd Mewnol eto am y flwyddyn 2015-16.

9. 05/15 CYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Neuadd y Ddraig Goch - Cyng. Christopher Jones
Parc Puw Drefach - Felindre - Cyng. Ian Davies
Llywodraethwyr Bryn Saron - Cyng. John Wigley
Llywodraethwyr Penboyr - Cyng. Dilwyn Smith
Y Pwerdy Llandysul - Cyng. Jamie Ayres
Pwyllgor Coffa T Llew Jones – Cyng. Brenda Jones a Nesta Jones

10. 05/14 MATERION CYFANSODDIADOL:

Cytunwyd i dderbyn y cynnig bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar nos Lun olaf bob mis am 7.30y.h arwahan i fisoedd Awst a Rhagfyr pan na fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal. Ym mis Mai os bydd y dydd Llun olaf yn cwmpo ar Wyl y Banc bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ar y nos Lun wythnos cynt. Yr un peth i ddigwydd os bydd unrhyw nos Lun cyfarfod arall, yn ystod y flwyddyn, yn syrthio ar Wyl y Banc yr un fydd y drefn.

Unrhyw fater angen gwaith cyfreithiol i gael ei ddelio gyda Mrs Eleri Thomas & Co, Cyfreithwyr, CN Emlyn

Dyddiadau Cyfarfodydd 2015/16

2015:- Mehefin 29ain, Gorffennaf 27ain, Medi 28ain, Hydref 26ain, Tachwedd 30ain,

2016:- Ionawr 25ain, Chwefror 29ain, Mawrth 21ain, Ebrill 25ain, Mai 23ain

Daeth y cyfarfod i ben am 7.50yh

_____Cadeirydd

_____Dyddiad